



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

ADRODDIAD ar y GOBLYGIADAU i SAFLEOEDD EWROPEAIDD

Piblinell Carbon Deuocsid Arfaethedig HyNet

Adroddiad gan yr Awdurdod Archwilio a baratowyd gyda
chymorth y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN070007

01 Awst 2023

TABL CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD.....	1
1.1	CEFNDIR	1
1.2	DOGFENNAU A DDEFNYDDIUYD I LYWIO'R RIES HWN	2
1.3	CEISIADAU I WNEUD NEWIDIADAU	2
1.4	STRWYTHUR Y RIES HWN.....	4
2	TROSOLWG	5
2.1	SAFLEOEDD EWROPEAIDD A YSTYRIUYD.....	5
2.2	LLWYBRAU EFFEITHIAU POSIBL.....	7
2.3	EFFEITHIAU AR Y CYD.....	7
2.4	CRYNODEB O ASESIAID YR YMGEISYDD	8
2.5	MATERION HRA A YSTYRIUYD YN YSTOD YR ARCHWILIAD	8
3	EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL.....	9
3.1	YMAGWEDD YR YMGEISYDD	9
3.2	SAFLEOEDD Y DAETH YR YMGEISYDD I'R CASGLIAD NA FYDDAI LSE AR YR HOLL NODWEDDION CYMWYS.....	10
3.3	SAFLEOEDD Y DAETH YR YMGEISYDD I'R CASGLIAD Y BYDDAI LSE AR RAI NEU BOB UN O'R NODWEDDION CYMWYS	10
3.4	MATERION ARCHWILIAD	11
3.5	CRYNODEB O GANLYNIADAU'R ARCHWILIAD MEWN PERTHYNAS Â SGRINIO.....	20
4	EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD.....	21
4.1	AMCANION CADWRAETH	21
4.2	YMAGWEDD YR YMGEISYDD	21
4.3	AEOI O'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG YN UNIGOL NEU AR Y CYD	22
4.4	CRYNODEB O GANLYNIADAU'R ARCHWILIAD MEWN PERTHYNAS AG EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD	28

ATODIAD 1: CRYNODEB O GASGLIADAU ASESIAU SGRINIO AC AEOI 29

1 CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Liverpool Bay CCS Ltd (yr Ymgeisydd) wedi gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid arfaethedig HyNet (y cais). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal archwiliad o'r cais, i adrodd ar ei ganfyddiadau a'i gasgliadau, ac i wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r penderfyniad i'w wneud ar y cais.

1.1.2 Yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd¹ a'r Rheoliadau Cynefinoedd² ar gyfer ceisiadau a gyflwynir o dan gyfundrefn PA2008. Bydd y canfyddiadau a'r casgliadau ynglŷn â materion cadwraeth natur a adroddir gan yr ExA yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.3 Mae'r Adroddiad hwn ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) yn cofnodi a chyfeirio at y wybodaeth yn ymwneud ag effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd³ a ddarparwyd yn y cais DCO ac a gyflwynwyd drwy gydol yr Archwiliad gan yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant, hyd at Derfyn Amser 6 (D6) yr Archwiliad (4 Gorffennaf 2023). Nid yw'n ddogfen annibynnol a dylid ei darllen ar y cyd â'r dogfennau archwiliad y cyfeirir atynt. Pan gyflwynir cyfeiriadau at ddogfennau mewn cromfachau sgwâr [] yn nhestun yr adroddiad hwn, gellir dod o hyd i'r cyfeiriad hwnnw yn llyfrgell yr Archwiliad a gyhoeddwyd ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol trwy'r ddolen ganlynol:

[EN070007-001186-HyNet Carbon Dioxide Pipeline Bilingual Examination Library.pdf \(planninginspectorate.gov.uk\)](https://www.planninginspectorate.gov.uk/library/pdf/EN070007-001186-HyNet%20Carbon%20Dioxide%20Pipeline%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf)

Cyhoeddir y RIES hwn er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â Phartïon â Buddiant, gan gynnwys y Cyrff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB), Natural England (NE) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynglŷn â materion Rheoliadau Cynefinoedd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.4 Mae hefyd yn ceisio amlygu a chau unrhyw fylchau yn nealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau Partïon â Buddiant ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd, mewn perthynas â'r holl safleoedd a nodweddion o ddiddordeb cyn belled ag y bo'n bosibl, er mwyn cefnogi argymhelliad cadarn a thrwyadl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

¹ Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor dyddiedig 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwylt (fel y'i codeiddiwyd) (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd').

² Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd).

³ Mae'r term Safleoedd Ewropeaidd yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol (SBCau), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac ACAau ymgeisiol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu), ACAau posibl, darpar AGAAu, safleoedd Ramsar, safleoedd Ramsar arfaethedig, ac unrhyw safleoedd a amlygwyd fel mesurau digolledu ar gyfer effeithiau niweidiol ar unrhyw un o'r uchod. I gael disgrifiad llawn o'r dynodiadau y mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol iddynt, a/neu sy'n cael eu cymhwyso fel mater o bolisi'r Llywodraeth, gweler Nodyn Cyngor 10 yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS).

1.1.5 Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yr ExA yn ystyried yr ymatebion wrth wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a byddant ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r adroddiad hwn. Ni fydd y RIES yn cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad.

1.2 Dogfennau a ddefnyddiwyd i lywio'r RIES hwn

1.2.1 Mae Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) (yr HRAR) yr Ymgeisydd yn cynnwys y ddogfen ganlynol:

- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Gwybodaeth i Lywio Asesiad Priodol [REP4-243].

1.2.2 Darparwyd HRAR gyda'r cais DCO ('HRAR y cais') [APP-226]. Fe'i diweddarwyd wedi hynny yn ystod yr Archwiliad [CR1-121, REP2-023]. Darparwyd fersiwn erbyn Terfyn Amser 4 [REP4-243] a oedd yr un fath â'r fersiwn a ddarparwyd erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-023]. Mae'r holl gyfeiriadau at yr HRAR yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at REP4-243, oni nodir fel arall.

1.2.3 Mae Adran 6.3 Tablau 6.2 – 6.9 yr HRAR yn cynnwys matricesau sgrinio ar gyfer effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun. Ni ddarparwyd matricesau cyfanrwydd.

1.2.4 Yn ogystal â'r HRAR, mae'r RIES yn cyfeirio at sylwadau a gyflwynwyd i'r Archwiliad gan Bartion â Buddiant, dogfennau Gwrandawriad Mater Penodol (ISH), Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) a dogfennau eraill yr Archwiliad fel y bo'n berthnasol. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Llyfrgell yr Archwiliad⁴.

1.2.5 Cyhoeddodd yr ExA gwestiynau ysgrifenedig yn ymwneud â materion HRA yn ystod yr Archwiliad [PD-014, PD-022].

1.3 Ceisiadau i Wneud Newidiadau

1.3.1 Hyd yma, mae'r Ymgeisydd wedi gwneud y ceisiadau i newid canlynol:

- Cais i Wneud Newidiadau 1 (CR1) a gyflwynwyd ar 27 Mawrth 2023 [CR-001 i CR-126] ac a dderbyniwyd gan yr ExA ar 24 Ebrill 2023 [PD-016];
- Cais i Wneud Newidiadau 2 (CR2) [CR2-001 i CR2-021] a gyflwynwyd ar 26 Mai 2023 ac a dderbyniwyd gan yr ExA ar 2 Mehefin 2023 [PD-019]; a
- Cais i Wneud Newidiadau 3 (CR3) [CR3-001 i CR3-019] a gyflwynwyd ar 5 Gorffennaf 2023 ac a dderbyniwyd gan yr ExA ar 12 Gorffennaf 2023 [PD-025].

1.3.2 Roedd CR1 yn cynnwys 18 o newidiadau. Roedd y rhain yn cynnwys adleoli rhai elfennau o'r Datblygiad Arfaethedig; cadw tanc slyri; gwyro

⁴ Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael yn: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN070007/EN070007-001186-HyNet%20Carbon%20Dioxide%20Pipeline%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf>

troedffyrdd, llwybrau beicio a Hawl Dramwy Gyhoeddus (PRoW); ac ymestyn oriau gwaith adeiladu. Cynigiwyd estyniadau a gostyngiadau i Derfynau'r Gorchymyn mewn amryw leoliadau i ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn.

- 1.3.3 Darparwyd HRAR diwygiedig [CR1-121] yn rhan o ddogfennau CR1. Ni amlygwyd unrhyw safleoedd Ewropeaidd ychwanegol. Esboniodd yr HRAR fod posibilrwydd y gallai dau o'r newidiadau newid casgliadau'r HRA:
- Newid PS02b – cadw'r tanc slyri a symud y Biblinell Newydd yn agosach i goetir swyddogaethol gysylltiedig Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle; a
 - Newid PS03 – adleoli Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) Northop Hall, a fyddai'n cyflwyno cysylltiad draenio i Is-afon 1 Nant Gweptra, sydd wedi'i chysylltu'n hydrolegol ag ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle.
- 1.3.4 Darperir asesiad o effeithiau posibl y newidiadau ar yr hen goetir derw mes di-goes, sy'n nodwedd gymwys o'r ACA, yn nodiadau tystiolaeth (a) (PS02b) a (d) (PS03) i Dabl 6.3 matrices sgrinio'r HRAR. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol debygol (LSE) ar yr ACA o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Nid oedd unrhyw Barti â Buddiant wedi herio'r casgliad hwn.
- 1.3.5 Esboniwyd hefyd yn yr HRAR ei fod wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu gwybodaeth ddiwygiedig yn ymwneud â'r fethodoleg adeiladu ar gyfer croesi Afon Dyfrdwy.
- 1.3.6 Roedd CR2 yn cynnwys 2 newid:
- Newid 1 – opsiwn amgen arfaethedig ar gyfer Gwaith Rhif 43, croesfan ffos Nant Alltami, yn cynnwys pont bibell ymgorfforedig; a
 - Newid 2: ychwanegu a dileu lleiniau bach o dir at/o Derfynau'r Gorchymyn yn lleoliad Gwaith Rhif 34 i optimeiddio mynediad adeiladu dros dro.
- 1.3.7 Ni amlygodd yr Ymgeisydd unrhyw newidiadau i'r HRA o ganlyniad i CR2. Nid oedd unrhyw Barti â Buddiant wedi herio hyn.
- 1.3.8 Roedd CR3 yn cynnwys pedwar newid a fyddai'n arwain at ddileu lleiniau o dir o Derfynau'r Gorchymyn a newid i'r Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol [CR3-017]. Ni adnabodd yr Ymgeisydd p'un a fyddai unrhyw newidiadau i'r HRA o ganlyniad i CR3. Fodd bynnag, yn ei lythyr clawr D6 [REP6-001], eglurodd, mewn ymateb i'r eglurhad y gofynnwyd amdano ym Mhenderfyniad Gweithdrefnol yr ExA ar CR3 [PD-025], y gallai CR3 arwain at "newidiadau enwol mân" i agosrwydd y safleoedd Ewropeaidd at y Terfynau Gorchymyn a'r pellteroedd a ddyfynnwyd. Roedd o'r farn nad oedd y newidiadau CR3 yn arwain at unrhyw newid i'r asesiad LSE a gynhwysir yn REP4-243 ac felly nad oedd angen diwygio canlyniadau a chasgliadau'r HRA. Byddai'r pellteroedd a nodwyd yn cael eu newid mewn HRAR wedi'i ddiweddarau a gyflwynwyd cyn cau'r Archwiliad.

1.3.9 Manylir ar faterion HRA perthnasol sy'n codi o'r ceisiadau i wneud newidiadau hyn yn Adrannau 2, 3 a 4 y RIES hwn.

1.4 Strwythur y RIES hwn

1.4.1 Mae gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn rhoi trosolwg o'r safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd yn y cais DCO y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt, ynghyd â chrynodeb o faterion allweddol yr Archwiliad hyd at Derfyn Amser 6.
- Mae **Adran 3** yn amlygu'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a sgriniwyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer LSE posibl, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill. Mae'r adran hefyd yn amlygu'r materion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad hyd at Derfyn Amser 6.
- Mae **Adran 4** yn amlygu'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a ystyriwyd o ran effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill. Mae'r adran hefyd yn amlygu'r materion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys lle mae Partïon â Buddiant wedi herio casgliadau'r Ymgeisydd, hyd at Derfyn Amser 6.
- Mae **Atodiad 1** yn cynnwys tabl sy'n crynhoi dealltwriaeth yr ExA o gasgliadau sgrinio ac effeithiau niweidiol ar adeg cyhoeddi'r RIES hwn.

Cwestiynau'r RIES

1.4.2 Mae'r RIES hwn yn cynnwys cwestiynau sydd wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer yr Ymgeisydd, NE a CNC, a ddangosir mewn [testun glas, italiq wedi'i danlinellu](#).

1.4.3 Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir yn y RIES a sylwadau a dderbynnir arno'n werthfawr iawn i'r ExA er mwyn deall safbwyntiau Partïon â Buddiant ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, pwysleisir y bydd ymatebion i faterion eraill a drafodir yn y RIES yn cael eu croesawu llawn cymaint.

1.4.4 Wrth ymateb i gwestiynau yn Nhablau 3.1 a 4.1, cyfeiriwch at y rhif cyfeirnod yn y golofn gyntaf, os gwelwch yn dda.

1.4.5 Mae sylwadau ar y RIES wedi'u hamserlennu ar gyfer Terfyn Amser 7 (5 Medi 2023).

2 TROSOLWG

2.1 Safleoedd Ewropeaidd a Ystyriwyd

Cyflwyniad

- 2.1.1 Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn gysylltiedig â rheoli unrhyw safleoedd Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur, nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.
- 2.1.2 Amlygodd yr Ymgeisydd safleoedd Ewropeaidd o fewn 10km o'r 'Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd'⁵.

Safleoedd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

- 2.1.3 Amlygodd HRAR yr Ymgeisydd [APP-226] naw safle Ewropeaidd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (NSN) y Deyrnas Unedig i'w cynnwys yn yr asesiad. Rhestrir y rhain yn Adran 5 yr HRAR ac maen nhw fel y maent wedi'u manylu yn Nhabl 2.1 isod.
- 2.1.4 Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli yng Nghymru a Lloegr, ac felly amlygwyd safleoedd Ewropeaidd yn y ddwy wlad; mae CNC yn gyfrifol am y rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac mae Natural England yn gyfrifol am y rhai sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Rhennir cyfrifoldeb am safleoedd trawsffiniol.

Tabl 2.1: Safleoedd Ewropeaidd a amlygwyd yn HRAR yr Ymgeisydd

Enw'r Safle Ewropeaidd	Gwlad	Pellter o'r Datblygiad Arfaethedig
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid	Cymru a Lloegr	0km (mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ei chroesi)
ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle	Cymru	Yn union gerllaw'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd
ACA Mynydd Helygain SAC	Cymru	248m
AGA Aber Afon Mersi	Lloegr	0.8km
Safle Ramsar Aber Afon Mersi	Lloegr	0.8km

⁵ Diffinnir hyn ym Mhennod 3 y Datganiad Amgylcheddol [APP-055] fel Terfynau'r Gorchymyn minws Piblinell bresennol Terfynell Cei Connah i'r Parlwr Du (PoA) ('Piblinell Gysylltu'r Fflint â Therfynell PoA'). Mae'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd yn cynnwys hyd a lled mwyaf yr holl waith adeiladu parhaol a dros dro posibl sy'n ofynnol yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig.

Enw'r Safle Ewropeaidd	Gwlad	Pellter o'r Datblygiad Arfaethedig
ACA Aber Afon Dyfrdwy	Cymru a Lloegr	1km
AGA Aber Afon Dyfrdwy	Cymru a Lloegr	1km
Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy	Cymru a Lloegr	1km
ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun	Cymru	6km

- 2.1.5 Dangosir lleoliadau'r safleoedd hyn mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn Atodiad A Ffigur 9.1.1, Dalenni 1 a 2 Atodiad 9.1 y Datganiad Amgylcheddol [REP4-091].
- 2.1.6 Amlygodd NE yn REP1-070 fod safleoedd Ewropeaidd ychwanegol o fewn 10km o safle'r cais, gan gynnwys safleoedd Ramsar Cam 1 a Cham 2 Midland Meres and Mosses, ac awgrymodd y gellid mewnosod geiriad yn yr HRAR ynglŷn â'r safleoedd hyn er mwyn eglurder. Fodd bynnag, cadarnhaodd ei fod yn fodlon â'r safleoedd a'r nodweddion a gynhwyswyd yn yr asesiad.
- 2.1.7 Yn ymateb [REP5-025] i Q2.11.1 yn ail rownd yr ExA o gwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth (ExQ2) [PD-022], nododd yr Ymgeisydd fod y ddau safle Ramsar oddeutu 8.6km ac 8.9km, yn ôl eu trefn, i'r dwyrain o'r Datblygiad Arfaethedig ar eu pwynt agosaf, a'u bod wedi'u dynodi ar gyfer eu cynefinoedd a'u casgliadau o flodau. Penderfynodd yr Ymgeisydd eu bod y tu hwnt i barth dylanwad posibl y Datblygiad Arfaethedig a chadarnhaodd nad yw'r cynefinoedd/rhywogaethau cymwys yn bodoli o fewn y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd. Ar y sail hon, ystyriodd nad oedd unrhyw lwybrau effaith posibl a allai arwain at LSE, ond byddai'n diweddarau'r HRAR cyn diwedd yr Archwiliad i gynnwys cyfeiriad at y safleoedd hyn.
- 2.1.8 Cadarnhaodd CNC yn REP1-071 ei fod yn cytuno â'r safleoedd a'r nodweddion a ystyriwyd yn HRA yr Ymgeisydd.
- 2.1.9 Yn ymateb [REP5-025] i ExQ2.11.2 [PD-022], cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi diwygio pellter ACA Mynydd Helygain o safle'r Datblygiad Arfaethedig o 280m i 248m yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau [REP2-023]. O ran AGA a safle Ramsar (ac ACA) Aber Afon Dyfrdwy, dywedodd y byddai'n diwygio'r pellter o safle'r Datblygiad Arfaethedig a nodwyd yn yr HRAR fel 1.2km i 1km mewn HRAR wedi'i ddiweddarau.

Safleoedd nad ydynt yn y Deyrnas Unedig

- 2.1.10 Nid yw'r Ymgeisydd wedi amlygu unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd yn unrhyw rai o Wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

2.2 Llwybrau effeithiau posibl

2.2.1 Rhoddodd Adran 6 yr HRAR fanylion am effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig, ynghyd â graddau daearyddol posibl yr effeithiau.

2.2.2 Mae'r llwybrau effeithiau posibl a ystyriwyd yn cynnwys:

- colli cynefin yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (gan gynnwys cynefin swyddogaethol);
- marwoldeb rhywogaethau;
- darnio cynefinoedd a/neu rywogaethau;
- aflonyddu gweledol neu sŵn/dirgryniad;
- effeithiau hydrolegol; ac
- effeithiau ar ansawdd aer (dyddodion llwch).

2.2.3 Asesodd yr HRAR yr effeithiau posibl yn ystod adeiladu a gweithredu a chynnal a chadw; ni asesodd effeithiau yn ystod y cam datgomiynu. Cadarnhaodd y Datganiad Amgylcheddol (ES) [APP-055] fod y biblinell wedi cael ei dylunio i bara am 40 mlynedd a'r seilwaith cysylltiedig am 25 mlynedd. Pan fyddai'n cael ei datgomiynu, byddai'r biblinell yn cael ei llenwi â nitrogen a'i gadael yn y fan a'r lle, a byddai nodweddion ar ben y tir yn cael eu datgysylltu a'u clirio a byddai'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol.

2.2.4 Cydnabu'r Ymgeisydd yn REP1-044 fod datgomiynu wedi'i gynnwys yn y DCO drafft (dDCO). Ymdriniodd â datgomiynu yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau a ddarparwyd erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-023]. Mae'r HRAR yn croesgyfeirio i Adran 3.8 Pennod 3 y Datganiad Amgylcheddol [APP-055], sy'n disgrifio'r ymagwedd arfaethedig at ddatgomiynu.

2.2.5 Roedd yr Ymgeisydd yn disgwyl y byddai'r effeithiau sy'n gysylltiedig â datgomiynu yn debyg i'r effeithiau adeiladu, ac esboniodd yr ystyriwyd bod cyfeiriadau yn yr HRAR at effeithiau adeiladu yr un mor berthnasol i effeithiau datgomiynu.

2.2.6 Mae Tablau A1.1 i A1.9 yn Atodiad 1 y RIES hwn yn manylu ar y llwybrau effeithiau posibl a ystyriwyd yn yr HRAR yn ôl safle Ewropeaidd a nodweddion cymwys.

2.2.7 Yn ystod yr Archwiliad, gofynnodd yr ExA hefyd am wybodaeth ynglŷn ag effeithiau ansawdd aer sy'n deillio o allyriadau cerbydau [PD-022] (gweler Tabl 3.1 yr adroddiad hwn am ragor o fanylion).

2.3 Effeithiau ar y cyd

2.3.1 Mae Adran 6.4 yr HRAR yn manylu ar ymagwedd yr Ymgeisydd at asesu effeithiau ar y cyd. Mae Atodiad B yr HRAR 42 yn rhestru 'Datblygiadau Eraill' i'w hystyried yn yr asesiad ar y cyd. I ddechrau, ystyriwyd bod posibilrwydd y gallai naw o'r Datblygiadau Eraill gyfrannu at LSE ynghyd â'r Datblygiad Arfaethedig; manylir ar y rhain yn Nhabl 6.10 yr HRAR ac fe'u dangosir yn Ffigur 19.1 y Datganiad Amgylcheddol [REP4-234].

- 2.3.2 Amlygodd yr Ymgeisydd, yn ei ymateb [REP1-044] i Q1.11.3 yng nghwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr ExA (ExQ1), fod un datblygiad (ID14) wedi cael ei ddileu o'r HRA yn dilyn trafodaethau ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA). Adlewyrchwyd hyn yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau [CR1-121]. Yn ogystal, diweddarwyd y rhestr fer o Ddatblygiadau Eraill a gynhwyswyd yn Atodiad 19-1 Tabl 3 (Tabl 1.3 bellach) yn rhan o CR1 [CR1-044]. Byddai'r HRAR yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau i Dabl 3. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn na fyddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith o bwys ar y casgliadau yn yr HRAR.
- 2.3.3 Nododd NE, yn RR-065 a REP1-070, fod yr asesiad ar y cyd yn cynnwys cynlluniau eraill a oedd yn ffurfio rhan o Brosiect Gogledd-orllewin ehangach HyNet ac awgrymodd y dylai'r asesiad barhau i gael ei ddiweddarau wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r amlwg. Ymrwymodd yr Ymgeisydd yn REP1-044 i adolygu'r angen i ddiweddarau'r asesiad os bydd gwybodaeth ychwanegol neu newydd yn dod i'r amlwg.
- 2.3.4 Ni amlygodd Partion â Buddiant unrhyw gynlluniau neu brosiectau ychwanegol i'w cynnwys yn yr asesiad ar y cyd.

2.4 Crynodeb o Asesiad yr Ymgeisydd

- 2.4.1 Cyflwynir casgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn â sgrinio ac asesu effeithiau ar gyfanrwydd yn Adrannau 6 a 7 yr HRAR.
- 2.4.2 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad fod posibilrwydd o LSE ar saith safle Ewropeaidd. Aseswyd y safleoedd Ewropeaidd hyn gan yr Ymgeisydd wedi hynny i bennu a allent fod yn destun effaith niweidiol ar gyfanrwydd (AEoI) o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, o ystyried eu hamcanion cadwraeth.
- 2.4.3 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at AEoI ar unrhyw safle Ewropeaidd.

2.5 Materion HRA a Ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad

- 2.5.1 Hyd yma, mae'r Archwiliad wedi canolbwyntio ar effeithiau ar rywogaethau adar sy'n defnyddio tir swyddogaethol gysylltiedig (FLL).
- 2.5.2 Rhoddir rhagor o fanylion yn Adrannau 3 a 4 yr adroddiad hwn.

3 EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL

3.1 Ymagwedd yr Ymgeisydd

- 3.1.1 Sgriniodd yr Ymgeisydd gyfanswm o naw safle Ewropeaidd y mae'r Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt yn ei HRAR.
- 3.1.2 Crynhoir canlyniadau ymarfer sgrinio'r Ymgeisydd yn Adran 6 yr HRAR. Mae Adran 6.3 yn asesu effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun. Mae Tablau 6.2 – 6.9 yr HRAR yn cynnwys matricesau sgrinio ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeaidd a aseswyd, heblaw am ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun. Mae Adran 6.4 yn crynhoi'r asesiad o effeithiau ar y cyd, y mae manylion llawnach amdano yn Atodiad B yr HRAR. Mae Tabl 6.11 yn Adran 6.5 yn crynhoi'r casgliadau sgrinio. Nid yw'n nodi p'un a yw'r effeithiau rhagfynedig yn deillio o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.

Arolygon adar sy'n gaeafu

- 3.1.3 Datganodd paragraff 4.2.3 HRAR y cais [APP-226] fod arolygon adar sy'n gaeafu a gynhaliwyd i lywio'r asesiad wedi cael eu cynnal gydag o leiaf un ymweliad y mis rhwng mis Hydref a mis Chwefror, a dau ymweliad y mis rhwng mis Mawrth a mis Medi.
- 3.1.4 Roedd NE [RR-065] o'r farn bod hyn yn ymdrech gyfyngedig i arolygu o ran adar sy'n pasio heibio ac adar sy'n gaeafu, a chynghorodd ddau arolwg y mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth ac y dylai arolygon pasio heibio gynnwys ymweliadau wythnosol rhwng mis Medi a mis Tachwedd (neu rhwng mis Mawrth a mis Mai) a chael eu cynnal ar wahanol gyflyrau llanw. Ceisiodd wybodaeth ychwanegol i esbonio'r ymdrech arolygu lai a holodd b'un a oedd gwybodaeth ychwanegol ar gael i alluogi asesiad cadarn o'r effeithiau ar adar sy'n gaeafu. Ailadroddodd NE hyn yn REP1-070.
- 3.1.5 Ymatebodd yr Ymgeisydd [REP1-042] drwy ddweud bod un ymweliad y mis wedi cael ei gynnal rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021 a bod dau arolwg y mis wedi cael eu cwblhau rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022, sy'n wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd yn HRAR y cais. Roedd o'r farn bod yr ymagwedd hon yn gymesur yng nghyd-destun y Datblygiad Arfaethedig a'r gwaith adeiladu tymor byr, dros dro a lleol a gynigir. O ystyried y potensial ar gyfer rhywogaethau cymwys AGA a'i gysylltedd ag AGA Aber Afon Dyfrdwy, amlygodd fod Trawslun 2 (ar hyd Afon Dyfrdwy) wedi cael ei arolygu fwyaf, gydag arolygon a gwblhawyd ar wahanol gyflyrau llanw i sicrhau canlyniadau cynrychioliadol. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod swm y canlyniadau arolygon maes a gafwyd ar hyd y cyfnod arolygu yn ddigonol i lywio'r HRA a'i gasgliadau. Mae'r SoCG drafft (dSoCG) a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 4 yn dangos bod NE wedi cytuno â'r mater hwn [REP4-246].

[Cwestiwn: Gofynnir i'r Ymgeisydd ddiweddarau paragraff 4.2.3 yn fersiwn nesaf yr HRAR i adlewyrchu'r wybodaeth am ymweliadau arolygu fel yr amlinellir yn REP1-042.](#)

3.2 Safleoedd y daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai LSE ar yr holl nodweddion cymwys

- 3.2.1 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ar unrhyw un o nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd canlynol:
- ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun (HRAR Adran 5.1); ac
 - ACA Mynydd Helygain (HRAR Tabl 6.4).
- 3.2.2 Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd na fyddai unrhyw LSE mewn perthynas â'r safleoedd Ewropeaidd uchod [REP1-071].
- 3.2.3 Manylir ar y nodweddion cymwys a dealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau'r Ymgeisydd a CNC mewn perthynas â'r safleoedd hyn yn Atodiad 1 Tablau A1.1 i A1.2 y RIES hwn.

3.3 Safleoedd y daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad y byddai LSE ar rai neu bob un o'r nodweddion cymwys

- 3.3.1 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ar un neu fwy o nodweddion cymwys y saith safle sy'n weddill:
- ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid;
 - ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle;
 - AGA Aber Afon Mersi;
 - Safle Ramsar Aber Afon Mersi;
 - ACA Aber Afon Dyfrdwy;
 - AGA Aber Afon Dyfrdwy; a
 - Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
- 3.3.2 Crynhoir y nodweddion cymwys a'r llwybrau LSE a sgriniwyd gan yr Ymgeisydd yn Nhabl 6.11 yr HRAR ac fe'u nodir yn Atodiad 1 Tablau A1.1 i A1.9 yr adroddiad hwn.
- 3.3.3 Yn ymateb [REP1-070] i ExQ1.11.1 [PD-014], cadarnhaodd NE ei fod yn fodlon ar gasgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas ag ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Ildiodd i CNC mewn perthynas ag ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle.
- 3.3.4 Nid oedd NE yn cytuno [REP1-070] â chasgliad sgrinio'r Ymgeisydd o ddim LSE mewn perthynas â'r posibilrwydd o aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu (ar dir swyddogaethol gysylltiedig (FLL)) a oedd yn nodweddion o AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Wedi hynny, cynhaliodd yr Ymgeisydd asesiad AEOI ar y llwybr effaith hwn yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-023].

- 3.3.5 Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn â'r holl safleoedd Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru [REP1-071].
- 3.3.6 Nid yw'r llwybrau LSE posibl a sgriniwyd gan yr Ymgeisydd wedi cael eu herio gan unrhyw Bartïon â Buddiant. Fodd bynnag, heriwyd penderfyniad yr Ymgeisydd i eithrio rhai llwybrau effaith LSE gan Bartïon â Buddiant a holodd yr ExA ynglŷn â hynny yn ystod yr Archwiliad. Gweler Adran 3.4 y RIES hwn am ragor o fanylion.

3.4 Materion Archwiliad

- 3.4.1 Mae materion a godwyd yn ystod yr Archwiliad hyd yma neu y mae'r ExA yn ceisio eglurhad ohonynt, mewn perthynas ag LSE a hepgorwyd neu na ystyriwyd gan yr Ymgeisydd, yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3.1 isod.

Tabl 3.1: Materion a godwyd yn ystod yr Archwiliad hyd yma gan yr ExA a Phartïon â Buddiant mewn perthynas â sgrinio Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd) gan yr Ymgeisydd

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
AGA ABER AFON MERSI, SAFLE RAMSAR ABER AFON MERSI, AGA ABER AFON DYFRDWY a SAFLE RAMSAR ABER AFON DYFRDWY		
1	Effeithiau ar dir swyddogaethol gysylltiedig (FLL) – effeithiau aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu	<p>Datganodd paragraff 6.2.9 yr HRAR fod aflonyddwch sŵn yn debygol yn ystod adeiladu. Fodd bynnag, hepgorodd yr Ymgeisydd LSE o ganlyniad i aflonyddwch sŵn ar gyfer yr holl adar sy'n gaeafu.</p> <p>Nododd matricesau sgrinio'r Ymgeisydd y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn croesi Afon Dyfrdwy gan ddefnyddio dulliau croesi di-ffos a dywedodd y byddai'r gwahaniaeth uchder rhwng y cynefin fflat llaid a phyllau allanfa/mynedfa'r groesfan ddi-ffos arfaethedig yn lleihau'r posibilrwydd o aflonyddu. Dywedir bod nifer y rhywogaethau adar cymwys a gofnodwyd mewn mannau eraill ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn isel. Ni ystyrir aflonyddwch sŵn o weithgareddau adeiladu eraill.</p> <p>Dywedodd NE [RR-065] nad oedd yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn ag aflonyddwch sŵn ar adar sy'n gaeafu a cheisiodd fanylion ychwanegol am lefelau sŵn disgwylidiedig. Nid oedd yn cytuno â chyffredinolliad yr Ymgeisydd bod aflonyddu sylweddol yn annhebygol y tu hwnt i bellter o 300m a chynghorodd y dylid ystyried gwaith aflonyddu mawr (gan gynnwys gosod seilbyst a thorri hydrologig). Ailadroddodd NE y pwyntiau hyn yn REP1-070.</p> <p>Rhoddodd yr Ymgeisydd ragor o wybodaeth am lefelau sŵn yn REP1-042 ac yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau [REP2-023]. Y lefelau sŵn rhagfynedig 10m oddi wth y technegau gosod di-ffos oedd 82dB. Byddai'r pyllau allanfa a mynedfa wedi'u lleoli o leiaf 16m o lannau'r afon ac ar wahaniaeth uchder o oddeutu 2m, a allai ddarparu rhywfaint o wanhad. Y lefelau sŵn rhagfynedig ar bellter o 16m oedd tua 78dB. Cydnabu'r Ymgeisydd y potensial i'r lefelau sŵn fynd yn fwy na'r trothwyon a allai ysgogi ymateb gan yr adar. Dywedodd y byddai'r gwaith croesfan arfaethedig yn fyrhoedlog ac y byddai unrhyw aflonyddwch am gyfnod dros</p>

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
		<p>dro, a bod digon o gynefin amgen ar gael ar hyd Afon Dyfrdwy i gynnal adar a ddadleolir dros dro. Dyma oedd y sail i'r casgliad gwreiddiol o ddim LSE. Roedd yr Ymgeisydd wedi penderfynu cynnal asesiad AEOI ar y llwybr effaith hwn, ar y sail na ellid diystyru LSE yn ystod adeiladu heb fesurau lliniaru, a rhoddodd yr HRAR a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2 ddiweddariad yn unol â hynny.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ2.11.3, dywedodd yr Ymgeisydd mai rhywogaethau cymwys AGA/safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yw hwyaid ac adar dŵr yn bennaf, y byddai amgylcheddau morydol a dyfrol yn gynefin swyddogaethol gysylltiedig iddynt [REP5-025]. Fel y manylir yn y matricesau sgrinio perthnasol yn yr HRAR, mae mwyafrif y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd yn cynnwys tir amaeth âr, glaswelltir gwael wedi'i led-wella a glaswelltir wedi'i wella, sy'n gynefinoedd anffafriol ar gyfer y rhywogaethau adar cymwys, ac felly ni ystyrir ei fod yn swyddogaethol gysylltiedig â'r safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>O ran sut y cadarnhawyd maint y cynefin swyddogaethol, esboniodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ystyried dewisiadau cynefin a chylchoedd oes rhywogaethau cymwys AGA/safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, presenoldeb cynefin sy'n addas i gynnal y rhywogaethau hyn; a chanlyniadau'r arolygon adar sylfaenol a gynhaliwyd i lywio'r asesiad o'r effaith ecolegol (Atodiad 9.8: Adroddiad Adar y Datganiad Amgylcheddol [REP4-112]).</p> <p>O ran y lefelau sŵn y mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddent yn arwain at LSE neu AEOI, esboniodd yr Ymgeisydd fod adolygiad o lenyddiaeth wedi amlygu tystiolaeth o aflonyddu ar rydwyr ac adar dŵr ar lefelau sŵn sy'n fwy na 56dB, fel y manylir ym mharagraff 6.2.11 yr HRAR, ac y defnyddiwyd hyn fel y trothwy ar gyfer pennu'r potensial ar gyfer LSE. O ran AEOI, roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad oedd yn briodol ystyried trothwy sŵn ar ei ben ei hun a bod nifer o ffactorau eraill yn llywio asesiad o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys nifer yr adar cymwys yr effeithir arnynt; hyd, agosrwydd a maint gofodol yr aflonyddwch sŵn; topograffeg; ac argaeledd adnodd/cynefin amgen i gynnal unrhyw adar a ddadleolir. Roedd yr holl ffactorau hyn wedi llywio'r asesiad a amlinellir yn Adran 7 yr HRAR a'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at AEOI ar AGA/safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p>

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
		<p>Wrth ymateb i ExQ2.11.4 ynglŷn â ph'un a fyddai unrhyw elfennau 'brawychus' amledd mawr yn cael eu defnyddio yn ystod adeiladu yn agos i'r safleoedd hyn, cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP5-025] nad oedd yn disgwyl y byddai unrhyw ddulliau neu fethodolegau adeiladu y gellid ystyried eu bod yn rhai amledd mawr neu frawychus. Byddai peiriannau ac offer rheolaidd a safonol yn cael eu defnyddio i adeiladu croesfan Afon Dyfrdwy. Ceir rhagor o sylwadau ar y mater hwn yn Nhabl 4.1 yr adroddiad hwn.</p>
2	Aflonyddu – ar y cyd	<p>Ymatebodd yr Ymgeisydd yn REP5-025 i ExQ2.11.6 ynglŷn â pha nodweddion cymwys ac i ba fath o aflonyddwch y mae ei gasgliad ynglŷn â'r potensial ar gyfer LSE sy'n deillio o effeithiau aflonyddu ar y cyd yn berthnasol iddynt. Dywedodd gan fod môr-wenoliaid cyffredin a phibyddion coesgoch yn unig wedi'u cofnodi mewn niferoedd o fwy nag 1% o'r dynodiad AGA/Dalen Wybodaeth Ramsar neu boblogaethau'r Arolwg Adar Gwlyptir (WeBS) (fel y nodir ym mharagraff 4.2.9 yr HRAR), byddai effeithiau aflonyddu ar y cyd yn berthnasol i'r ddwy rywogaeth gymwys hyn yn unig. Byddai aflonyddu'n deillio o weithgareddau adeiladu ac fe allai fod o ganlyniad i olau, sŵn, dirgryniad, a/neu bresenoldeb pobl. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod yr holl lwybrau aflonyddu hyn wedi cael eu hystyried wrth ddod i gasgliadau'r asesiad ar y cyd.</p>
ACA ABER AFON DYFRDWY		
3	Effeithiau hydrolegol	<p>Mae Adran 6.2 yr HRAR yn nodi y gallai 'ffracio-allan'⁶ yn ystod gwaith drilio cyfeiriadol llorweddol (HDD) ar gyfer y groesfan ddi-ffos ladd rhywogaethau pysgod cymwys, ond mae'n datgan bod hyn yn annhebygol o ddigwydd o ystyried daeareg Afon Dyfrdwy. Mae'r HRAR yn hepgor LSE o effeithiau hydrolegol ar llywod pendoll y môr a llysywod pendoll yr afon yn ACA Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Gofynnodd NRW [RR-066] i fesurau lliniaru gael eu cynnig i osgoi'r prif amser rhedeg ar gyfer rhywogaethau pysgod allweddol er mwyn sicrhau bod effeithiau o'r fath yn</p>

⁶ Lle mae mwd drilio'n cael ei ryddhau trwy graigwely wedi'i dorri i'r graig a'r tywod amgylchynol ac yn teithio tuag at yr wyneb.

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
		<p>Ileiafsymiol, ac am eglurhad ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer croesfannau di-ffos Afon Dyfrdwy.</p> <p>Wrth ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.7, dywedodd CNC ei fod o'r farn bod y prif gyfnod mudol ar gyfer llisywod pendoll y môr rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn gyffredinol, gan rybuddio y gall hyn ddibynnu ar dymheredd y dŵr gan fod 12° yn dymheredd sbardun. Amlygodd fod llisywod pendoll yr afon (a nentydd) yn mudo rhwng mis Hydref a mis Mawrth, a bod silio'n digwydd ym mis Ebrill.</p> <p>Esboniodd yr Ymgeisydd [REP1-042] na ddisgwyliwyd i'r groesfan ddi-ffos gymryd mwy na phedair wythnos, fel y nodwyd yn yr HRAR. Fel yr amlinellir yn Adran 6.2 yr HRAR, roedd ymchwiliadau geodechnegol ar bob ochr i Afon Dyfrdwy wedi cael eu cynnal, y mae eu canlyniadau wedi'u cynnwys yn [APP-135]. Byddai'r groesfan yn ddigon dwfn (o leiaf 15m) i olygu y byddai trwch digonol o strata cydlynol caled, athreiddedd isel, ac felly byddai bentonit yn annhebygol o gael ei ffracio allan. Er bod ffracio allan yn annhebygol iawn o ganlyniad i lif llanw cyflym Afon Dyfrdwy, byddai bentonit yn cael ei wasgaru a'i wanhau'n gyflym o fewn y golofn ddŵr, gan ei atal rhag cael ei ddal yn lleol. Felly, roedd yr Ymgeisydd yn ystyried na fyddai LSE ar dderbynyddion, gan gynnwys rhywogaethau pysgod allweddol, o fewn Afon Dyfrdwy ac nad oedd angen i'r gwaith gael ei amseru'n dymhorol.</p> <p>Derbyniodd CNC [REP1-071] gasgliadau'r Ymgeisydd ar risg isel ffracio allan yn ystod y gwaith HDD. Amlygodd hefyd y gellid osgoi'r cyfnodau mudol brig o ganlyniad i'r amserlen 4 wythnos arfaethedig ar gyfer y gwaith.</p> <p>Cadarnhaodd CNC yn ei ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.8 ei fod yn cytuno n fyddai LSE ar nodweddion llisywod pendoll y môr a'r afon yr ACA.</p>
ACA AFON DYFRDWY A LLYN TEGID		
4	Effeithiau ar ansawdd aer – ar y cyd	Amlygodd Tabl 6.10 HRAR y cais [APP-226] y potensial i Ddatblygiad Arall 14 gael effeithiau aflonyddu ar y cyd ar rywogaethau pysgod cymwys ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac effeithiau ar y cyd ar "nodweddion cymwys ACA Afon Dyfrdwy [sic] o ganlyniad i waddodion llwch".

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
		<p>Esboniwyd wedi hynny ym mharagraff 19.9.1 yr Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer CR1 [CR1-124] fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai ID14 yn cael ei adeiladu ar yr un pryd â'r Datblygiad Arfaethedig. Yn unol â hynny, fe'i dilëwyd o'r rhestr o gynlluniau a phrosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd yn yr HRAR wedi'i ddiweddarau HRAR [CR1-121] a ddarparwyd gyda'r dogfennau cais am newid a dderbyniwyd.</p> <p>Amlygwyd y potensial ar gyfer effeithiau llwch ar y cyd hefyd yn Nhabl 6.10 yr HRAR o ran Datblygiad Arall 27. Wrth ymateb i ExQ2.11.9, cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y casgliad ynglŷn ag LSE ar gyfer effeithiau llwch ar y cyd ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn berthnasol i'r holl nodweddion cymwys (cynefinoedd a rhywogaethau) [REP5-025].</p>
	Dyfrgwn – effeithiau ar y cyd	<p>Amlygodd Tabl 6.10 HRAR y cais [APP-226] y potensial i Ddatblygiad Arall 27 gael effeithiau ar y cyd ar ddyfrgwn, ond ni nododd y llwybr effaith posibl yn benodol.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ2.11.10, cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ei gasgliad, sef bod potensial ar gyfer LSE ar y cyd ar ddyfrgwn pe byddai'r ddau ddatblygiad yn cael eu hadeiladu ar yr un pryd, yn ymwneud â cholli cynefin (gan gynnwys cynefin swyddogaethol gysylltiedig) a marwoldeb o ganlyniad i gael eu dal mewn gwagleoedd [REP5-025].</p>
5	Dyfrgwn – effeithiau yn unigol ac ar y cyd	<p>Roedd y rhestr o gyrsiau dŵr lle y cofnodwyd arwyddion o ddyfrgwn a gynhwyswyd ym mharagraff 4.4.7 yr HRAR wedi'i ddiweddarau a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2 yn cynnwys lleoliadau ychwanegol o fewn ac yn agos i'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd. Wrth ymateb i ExQ2.11.11, cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP5-025] fod effeithiau posibl ar ddyfrgwn ar hyd yr holl gyrsiau dŵr a arolygwyd, a lle y cofnodwyd arwyddion o ddyfrgwn mewn caeau, wedi cael eu hystyried yn yr HRAR. Roedd arwyddion mewn caeau yn cadarnhau presenoldeb dyfrgwn ar hyd y cyrsiau dŵr hyn ond ni chofnodwyd unrhyw fannau gorffwys. Dywedodd yr Ymgeisydd fod yr asesiad a gyflwynwyd yn nodyn tystiolaeth (b) i'r matrices sgrinio a gynhwyswyd yn Nhabl 6.2 yr HRAR yn ddilys o hyd, a ddaeth i'r casgliad fod potensial ar gyfer LSE ar ddyfrgwn mewn perthynas â cholli cynefin swyddogaethol gysylltiedig ar hyd Nant Gwepa a'r posibilrwydd y gallai dyfrgwn gael eu dal mewn gwagleoedd a grëwyd yn ystod adeiladu.</p>

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
ACA SAFLEOEDD MADFALLOD DŴR GLANNAU DYFRDWY A BWCLE		
6	Effeithiau ar ansawdd aer	<p>Nid yw'r HRAR yn asesu effeithiau ar ansawdd aer o allyriadau cerbydol wrth bedwar gwriad ffordd o fewn 200m o ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle ar y sail y byddai gwriadau "dros dro ac yn fyrhoedlog" (Adran 6.2 yr HRAR).</p> <p>Wrth ymateb i ExQ2.11.12 ynglŷn ag am ba hyd y byddai'r gwriadau ffyrdd yn parhau a'r symudiadau cerbydau disgwylidig ar hyd y gwriadau hyn, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y disgwylidig i'r ffyrdd fod ar gau am bythefnos ar y mwyaf [REP5-025]. Byddai cau Pinfold Lane a Shotton Lane dros dro yn arwain at ddargyfeirio traffig i'r B5125 Holywell Road, sef y llwybr sydd agosaf i'r ACA. Dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai hyn yn fwy nag amrywiad dyddiol arferol disgwylidig o ran swm traffig.</p> <p>Cadarnhaodd CNC yn ei ymateb [REP5-044] i ExQ2.11.12 nad oedd o'r farn y byddai newidiadau posibl i ansawdd aer yn deillio o'r gwriadau ffyrdd arfaethedig yn debygol o gael LSE o ran amcanion cadwraeth yr ACA (madfallod dŵr cribog (GCN) a choetir llydanddail).</p>
7	GCN – colli cynefin yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a/neu farwoldeb; aflonyddu; darnio cynefinoedd/ rhywogaethau	<p>Mae paragraff 4.3.6 yr HRAR yn datgan, o ganlyniad i newidiadau arfaethedig CR1, nad oedd pum corff dŵr ychwanegol a gynhwyswyd wedi bod yn destun asesiad Mynegai Addasrwydd Cynefin (HSI) ar gyfer GCN gan eu bod wedi cael eu hamlygu y tu allan i'r cyfnodau arolygu tymhorol. Gofynnodd ExQ2.11.13 i'r Ymgeisydd gadarnhau'r ymagwedd a ddefnyddiwyd at asesu cyrff dŵr nad oeddent yn destun asesiad HSI, gan gynnwys y pum corff dŵr ychwanegol a gynhwyswyd o ganlyniad i CR1.</p> <p>Ymatebodd yr Ymgeisydd yn REP5-025. Esboniodd, yn Lloegr, y byddai effeithiau ar y cyrff dŵr hyn nad oeddent yn destun asesiad HSI ac a oedd wedi'u lleoli y tu allan i 'barth perygl coch' NE (sy'n cynnwys poblogaethau GCN o bwysigrwydd rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol) yn dod o dan Drwydded Lefel Ranbarthol (DLL) (mesur D-BD-044 y REAC [REP6-006]).</p> <p>Cadarnhaodd fod asesiad rhagofalus yn cael ei gymhwyso i gyrff dŵr nad oeddent yn destun asesiad HSI wedi'u lleoli o fewn y parth perygl coch yn Lloegr neu wedi'u lleoli yng Nghymru (oni bai eu bod wedi'u hepgor o ganlyniad i amodau amgylcheddol anaddas ar</p>

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
		<p>adeg yr arolwg neu wedi’u gwahanu oddi wrth y Datblygiad Arfaethedig gan rwystr mawr rhag gwasgaru), a thybir bod GCN yn bresennol.</p> <p>Amlygodd yr Ymgeisydd mai dim ond 80 o’r 222 o gyrff dŵr ar draws yr ardal arolygu (paragraff 4.3.6 yr HRAR) sydd wedi’u lleoli yng Nghymru a dim ond cyfran o’r rhain sydd o fewn ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac ACA Mynydd Helygain neu o fewn tua 500m o’r ACAau (ac felly’n swyddogaethol gysylltiedig ac yn berthnasol i’r HRA). Amlygodd yr Ymgeisydd hefyd fod y pum corff dŵr ychwanegol a gynhwyswyd yn rhan o CR1 wedi’u lleoli ym mhen gogledd-ddwyreiniol y Datblygiad Arfaethedig yn Lloegr ac nad ydynt yn swyddogaethol gysylltiedig â’r naill ACA na’r llall.</p>
8	GCN - arolygon	<p>Nododd CNC yn ei sylw ysgrifenedig a’i ymateb i ExQ1.4.8 [REP1-071] ei fod o’r farn bod yr arolygon GCN wedi cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cyhoeddiedig ac yn gymesur, ac felly eu bod yn foddhaol at ddibenion llywio egwyddorion adeiladu a gweithredu’r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, heriodd b’un a oedd yr asesiadau wedi ystyried amodau glawiad isel yn ystod y Gwanwyn 2022 (a allai effeithio ar fridio); a ph’un a ystyriwyd y cynefin chwilota am fwyd ar gyfer GCN o fewn pyllau wedi’u lleoli yn Lloegr, a allai chwilota am fwyd o fewn tir yng Nghymru.</p> <p>Roedd yr Ymgeisydd o’r farn [REP2-038] ei fod wedi ystyried y materion hyn yn briodol yn yr asesiad a thrwy’r mesurau lliniaru a gynhwyswyd yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP) [REP6-008]. Esboniodd mai dim ond saith o’r pyllau lle y cynhaliwyd arolygon presenoldeb/absenoldeb yng Nghymru y cofnodwyd eu bod yn sych yn ystod yr arolygon. O’r rhain, cofnodwyd presenoldeb GCN mewn un yn ystod y pum arolwg cychwynnol; fe’i cofnodwyd yn sych ar y chweched ymweliad arolygu. Roedd yr holl gyrff dŵr y cofnodwyd eu bod yn sych wedi hynny wedi bod yn destun un arolwg llwyddiannus o leiaf, a chofnodwyd eu bod yn sych ar yr ail, y trydydd neu’r pedwerydd ymweliad arolygu. Er hynny, byddai’r mesurau lliniaru arfaethedig a Datganiad Dulliau Gweithio Rhagofalus (PWMS) (fel y’i hamlinellir yn yr OCEMP) i ddiogelu GCN yn ystod adeiladu yn cael eu cymhwyso ar draws y Datblygiad Arfaethedig cyfan. Byddai arolygon cyn-adeiladu’n cael eu cwblhau i lywio gofynion trwyddedu a lliniaru, fel y sicrhair gan dDCO R12 [REP4-008].</p>

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Materion Archwiliad
		<p>Cytunodd yr Ymgeisydd ei bod yn debygol bod cynefin chwilota daearol GCN yn Lloegr yn ymestyn i Gymru ac ystyriodd y byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig yn diogelu GCN yn ystod adeiladu.</p> <p>Ceir rhagor o sylwadau ar y mater hwn yn Nhabl 4.1 yr adroddiad hwn.</p>

3.5 Crynodeb o ganlyniadau'r Archwiliad mewn perthynas â sgrinio

- 3.5.1 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad fod LSE ar saith safle Ewropeaidd y mae'r Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt. Aseswyd y safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys hyn ymhellach gan yr Ymgeisydd i bennu a allent fod yn destun AEOI o'r Datblygiad Arfaethedig, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill; gweler Adran 4 yr adroddiad hwn am ragor o fanylion.
- 3.5.2 Cytunodd yr Ymgeisydd yn ystod yr Archwiliad y dylai LSE gael ei sgrinio hefyd ar gyfer effeithiau aflonyddwch sŵn posibl ar adar sy'n gaeafu sy'n defnyddio tir swyddogaethol gysylltiedig (FLL) sy'n gysylltiedig ag AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Ystyrir y mater hwn ymhellach yn Adran 4 yr adroddiad hwn.
- 3.5.3 Amlinellir dealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau presennol yr Ymgeisydd, NE a CNC mewn perthynas ag LSE yn Atodiad 1 Tablau A1.1 i A1.9 yr adroddiad hwn.

4 EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD

4.1 Amcanion Cadwraeth

- 4.1.1 Cynhwyswyd yr amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeaidd yr amlygodd yr Ymgeisydd LSE arnynt ar adeg y cais DCO yn Atodiad A HRAR yr Ymgeisydd. Mae Tabl 5.2 yr HRAR yn manylu ar y bygythiadau hysbys i'r safleoedd hyn a'r pwysau hysbys arnynt.
- 4.1.2 Cadarnhaodd NE [REP1-070] a CNC [REP1-071], wrth ymateb i ExQ1.11.2, eu bod yn fodlon bod yr amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd Ewropeaidd fel y'u hamlinellir yn Atodiad A yr HRAR yn gywir.
- 4.1.3 Wrth ymateb i ExQ2.11.16 ynglŷn â statws cadwraeth presennol y safleoedd Ewropeaidd y daeth yr HRA i'r casgliad fod LSE arnynt, dywedodd yr Ymgeisydd na wyddys bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus [REP5-025]. Esboniodd fod y wybodaeth am amcanion cadwraeth a gyflwynwyd yn Atodiad A yr HRAR yn dod o'r dogfennau Amcanion Cadwraeth (Lloegr) neu Gynllun Rheoli Craidd (Cymru) ar gyfer pob safle Ewropeaidd.

4.2 Ymagwedd yr Ymgeisydd

- 4.2.1 Aseswyd y safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys yr amlygwyd LSE arnynt ymhellach gan yr Ymgeisydd i bennu a allent fod yn destun AEOI o'r Datblygiad Arfaethedig, naill ai'n unigol neu ar y cyd. Crynhoir canlyniadau asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd yn Adran 7 yr HRAR.

Mesurau lliniaru

- 4.2.2 Amlygir mesurau lliniaru arfaethedig yn Adran 7 yr HRAR. Cadarnhaodd Adran 7.1 y byddai Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei weithredu yn ystod adeiladu, a fyddai'n cael ei lywio gan y mesurau a fanylir yn y REAC [REP6-006] a'r OCEMP [REP6-008].
- 4.2.3 Manylir ar fesurau lliniaru penodol ychwanegol drwy gydol Adran 7 ac maen nhw'n cynnwys mesurau arfer gorau mewn perthynas ag atal llwch a llygredd, trwyddedau perthnasol ar gyfer rhywogaethau a warchodir, mesurau i atal dyfrgwn rhag cael eu dal, dylunio goleuadau'n briodol, a phlannu coetir cyfnewid. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu hystyried yn asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd.
- 4.2.4 Wrth ymateb i ExQ1.11.5 [PD-014], amlygodd yr Ymgeisydd y canllawiau a ddefnyddiodd, sef canllawiau'r Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer (IAQM) yn bennaf, i ddatblygu mesurau lliniaru priodol ar gyfer rheoli llwch adeiladu [REP1-044].
- 4.2.5 O ran effeithiau ar y cyd, cadarnhaodd Adran 7.8 yr HRAR fod Datblygiadau Eraill 1a, 19, 21 a 27 yn cynnig eu mesurau lliniaru eu hunain (fel y manylir yn Atodiad B yr HRAR). Nodir bod y Datblygiadau Eraill sy'n

weddill ar y cam cyn-ymgeisio a thbyir y byddent yn sicrhau mesurau lliniaru priodol i osgoi effeithiau niweidiol.

4.3 AEOI o'r Datblygiad Arfaethedig yn unigol neu ar y cyd

- 4.3.1 Cyflwynir asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig yn unigol ac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill yn Adrannau 7.2 i 7.7 ac Adran 7.8 (a gefnogir gan Atodiad B) yr HRAR, yn ôl eu trefn. Daeth i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw un o'r safleoedd a'r nodweddion Ewropeaidd a aseswyd.
- 4.3.2 Cadarnhaodd NE [RR-065] ei fod yn fodlon y byddai effeithiau goleuadau'r cam adeiladu yn annhebygol o arwain at AEOI ar AGA Aber Afon Dyfrdwy, safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, AGA Aber Afon Mersi a safle Ramsar Aber Afon Mersi. Dywedodd yn REP1-070 wrth ymateb i ExQ1.4.15 [PD-014] ei fod yn fodlon bod y mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer aflonyddwch goleuadau yn ddigonol, ond nad oedd yn glir o hyd ynglŷn â mesurau lliniaru ar gyfer aflonyddwch sŵn. Gofynnodd i ystyriaeth ychwanegol gael ei rhoi i amseru gwaith a fyddai'n agos i niferoedd sylweddol o adar AGA a chadarnhau amseriad gwaith yn agos i Afon Dyfrdwy. Cadarnhaodd ei fod yn fodlon â'r mesurau yn yr OCEMP [REP6-008] i gyfyngu ar symudiadau personél o amgylch yr ardaloedd gweithio ac felly osgoi effeithiau aflonyddu ar adar.
- 4.3.3 Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd na fyddai AEOI ar unrhyw safle Ewropeaidd [REP1-071]. Cynghorodd ei fod wedi adolygu'r brig cymedrig 5 mlynedd ar gyfer pibyddion coesgoch a gofnodwyd yn AGA Aber Afon Dyfrdwy ar ddynodiad y safle ac yn ôl y data mwyaf diweddar er mwyn llywio asesiad o gyflwr y pibyddion coesgoch sy'n pasio heibio ac yn gaeafu. Daeth i'r casgliad fod y boblogaeth pibyddion coesgoch mewn cyflwr ffafriol. Yn seiliedig ar hyn a natur yr aflonyddwch fel y'i disgrifiwyd gan yr Ymgeisydd, daeth CNC i'r casgliad fod y Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar AGA Aber Afon Dyfrdwy.
- 4.3.4 Wedi hynny, datganodd CNC yn ei ymateb i ExQ2 na allai gytuno eto â dim AEOI ar ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle [REP5-044].
- 4.3.5 Mae Tabl 4.1 isod yn amlygu lle mae ymagwedd asesu'r Ymgeisydd neu ei gasgliad o ddim AEOI wedi cael eu herio gan Partion â Buddiant yn ystod yr Archwiliad. Mae Tabl 4.1 yn adlewyrchu dealltwriaeth yr ExA o AEOI ar yr adeg adrodd ac yn nodi lle y ceisir eglurhad ynglŷn â safbwyntiau Partion â Buddiant.

Tabl 4.1: Materion a godwyd yn ystod yr Archwiliad hyd yma gan yr ExA a Phartïon â Buddiant mewn perthynas ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd)

Rhif Cyfeirnod	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw/ cwestiwn gan yr ExA
AGA ABER AFON MERSI, SAFLE RAMSAR ABER AFON MERSI, AGA ABER AFON DYFRDWY a SAFLE RAMSAR ABER AFON DYFRDWY			
